**Alun Davies AC/AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**
**Minister for Lifelong Learning and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/ARD/2614/17

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

1 Awst 2017


Annwyl Lynne

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Gorffennaf a oedd yn sôn am ddiddordeb parhaus y Pwyllgor mewn gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Rwy'n cydnabod pwysigrwydd a gwerth gwaith ieuenctid o safon. Felly, rwy'n falch o glywed am fwriad y Pwyllgor i barhau i edrych ar waith ieuenctid ledled Cymru a monitro gwaith Llywodraeth Cymru yn fanwl yn y maes hwn. Rwyf ar ddeall eich bod yn ceisio trefnu sesiwn graffu ffurfiol yn y Flwyddyn Newydd. Bydd hynny'n gyfle imi roi'r newyddion diweddaraf ichi ar y gwaith sy'n cael ei wneud.

Mae'ch safbwyntiau chi a rhai'r Pwyllgor yn hanfodol wrth inni fwrw ati i ddatblygu cyfeiriad statudol ac arweiniad, sydd wedi eu llywio gan randdeiliad, ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru. O gofio hynny, rwy'n croesawu'r cyfle i gael cyfarfod yn yr hydref er mwyn trafod y materion sydd wedi dod i'r amlwg wrth ichi drafod â rhanddeiliaid. At hynny, rwyf wedi gofyn i ysgrifennydd y dyddiadur gysylltu â chi i drefnu dyddiad.

Yn gywir



**Alun Davies AC/AM**
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.